**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 7 Chwefror 2018

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** Diweddariad ar Reoli’r Fflyd Gorfforaethol

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â’r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli’r Fflyd Gorfforaethol ym mis Hydref 2015.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?**
Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn rheoli fflyd ers cyhoeddi’r adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel', felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw. Dyma'r pedwerydd adroddiad cynnydd, gyda’r rhai blaenorol ym mis Mawrth 2016, Medi 2016 a Gorffennaf 2017.

3. **Beth yw'r argymhellion?**
Y Pwyllgor i adolygu cynnydd ac i benderfynu a oes angen adroddiad cynnydd pellach.

4. **Manylion yr Adroddiad**
Atodiad 1 yw’r cynllun gweithredu dilynol i’r Archwiliad Mewnol, sy'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud wrth weithredu'r materion a’r risgiau a nodwyd yn yr Archwiliad Mewnol.

   O’r 13 mater a godwyd yn ystod ein harchwiliad gwreiddiol, mae 12 bellach wedi’u datrys yn llwyddiannus, sy’n cynnwys y rhai hynny a ystyriwyd yn fwy sylweddol, fel datblygu Polisi Cludiant newydd, gwelliannau i iechyd a diogelwch a gwiriadau gyrwyr, a monitro cyflenwadau tanwydd. Er bod un mater yn dal yn weddill mewn perthynas â chaffael a gweithredu System Rheoli Fflyd newydd, roedd hwn mewn gwirionedd yr ail adolygiad o'r cam gweithredu penodol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i roi sylw iddo.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflawni gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.